**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Prucalopride ar gyfer trin rhwymedd cronig mewn merched

*Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar sut a phryd y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG.*

Mae'r daflen hon yn egluro pryd y dylid defnyddio **prucalopride** i drin merched sydd â rhwymedd cronig yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer merched sydd â rhwymedd cronig ond gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio rhwymedd cronig na'r triniaethau'n fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar dudalen 4.

*Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer rhwymedd cronig. Dylai eich meddyg siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae NICE yn argymell prucalopride fel triniaeth bosibl ar gyfer merched â rhwymedd cronig.

## Pwy all gael prucalopride?

Dylech allu cael prucalopride os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych wedi rhoi cynnig ar o leiaf dau wahanol fath o foddion gweithio ar y dosiau uchaf posibl a argymhellir, am o leiaf chwe mis, ac nid yw hyn wedi helpu eich rhwymedd **ac**
- rydych chi a'ch meddyg yn ystyried triniaeth ymwthiol ar gyfer eich rhwymedd.

Os nad yw prucalopride yn gweithio'n ddigon da ar ôl pedair wythnos o driniaeth, dylech chi a'ch meddyg drafod a ddylid parhau ag ef.

Dim ond os oes gan eich meddyg brofiad o drin rhwymedd cronig ac y mae wedi ystyried y moddion gweithio rydych wedi ei ddefnyddio cyn i chi benderfynu rhoi cynnig ar prucalopride yn ofalus y dylai gynnig procalopride i chi.

## Pam fod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae triniaethau yn gweithio yn ogystal â pha mor dda y maent yn gweithio mewn perthynas â'u cost i'r GIG. Mae NICE wedi argymell prucalopride am ei fod yn gweithio'n well na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG. Er ei fod hefyd yn costio mwy na thriniaethau eraill, cafodd hyn ei gyfiawnhau gan ei fanteision.

## Rhwymedd cronig

Gall rhwymedd gael effeithiau gwahanol: efallai na fyddwch yn gallu pasio carthion (ysgarthion) mor aml ag y byddwch fel arfer, efallai bod rhaid i chi straenio mwy na'r arfer neu efallai na fyddwch yn gallu gwagio eich coluddion yn llwyr. Ystyrir bod rhwymedd yn gronig os yw wedi effeithio arnoch am amser hir.

Gall triniaeth ymwthiol ar gyfer rhwymedd gynnwys tawddgyffur rhefrol (meddyginiaeth a osodir i mewn i'ch anws) neu enema, pan gaiff hylif ei chwistrellu drwy eich anws i mewn i'ch coluddyn er mwyn rhyddhau'r carthion sydd wedi mynd yn sownd.

## Prucalopride

Mae prucalopride yn gweithio drwy helpu carthion i symud drwy eich coluddyn, pibell hir y mae bwyd yn symud drwyddo wrth iddo gael ei dreulio.

Nid yw prucalopride wedi cael ei brofi mewn digon o ddynion i ddangos ei fod yn gweithio iddynt, felly dim ond merched all gymryd y cyffur hwn.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i’r GIG sicrhau ei bod ar gael i’r bobl hynny y gallai eu helpu, a hynny fel arfer o fewn tri mis i gyhoeddi’r canllawiau.

Felly, os oes gennych rwymedd cronig, a bod eich meddyg a chi yn credu mai prucalopride yw’r driniaeth gywir i chi (gweler 'Beth y mae NICE wedi'i ddweud?' ar dudalen 2), dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/aboutguidance os ydych yn credu eich bod yn gymwys i gael y driniaeth ond nad yw ar gael.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chyngor i ferched sydd â rhwymedd cronig. Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn, 01536 533255
  www.bladderandbowelfoundation.org
- Guts UK Charity: Funding research to fight diseases of the gut, liver & pancreas
  www.gutscharity.org.uk/
- PromoCon, 0161 834 2001
  www.promocon.co.uk

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a

chymorth i chi. Os ydych yn byw yng Nghymru dylech siarad â Galw Iechyd Cymru i gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am y cyflwr a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac yn ystyried y costau sydd ynghlwm. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/TA211*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r daflen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am rwymedd cronig.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-488-1
N2437 POD 1P December 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.